Prifysgol Cymru

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad: 23 Ebrill 2007

Lle: Siambr y Cyngor

Presennol: Yr Athro Densil Morgan (Cadeirydd), Ms Meri Huws, Mrs. Bethan Llwyd Jones, Mrs. Bethan Wyn Jones, Dr. Llion Jones, Mrs. Delyth Murphy, Mrs. Mairwen Owen, Mrs. Delyth Prys, Mr. Gerallt Wyn Roberts, Mrs. Gwerfyl Wyn Roberts, Mr. Wyn Thomas, Yr Athro Gerwyn Wiliams, Mr. Emyr Roberts (cofnodion), Dr. Ioan Matthews a Dr. Dylan Phillips, Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Ymddiheuriadau: Mr. Ifor Gruffydd, Dr. Keith Hughes, Mrs. Elen Huws, Mr. Dewi Wyn Jones, Dr. Gwyn Lewis, Dr. Delyth Morris, Dr. Robert Pope, Dr. Enlli Thomas, Dr. Einir Young.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Dr. Ioan Matthews a Dr. Dylan Phillips o'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg i'r cyfarfod.

2. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2007 fel cofnod cywir. Nodwyd y dylai eitem 4(i) ddarllen …… gyda chynnydd 24 CALL

3. MATERION YN CODI

1. Eitem 3.2 - Neuadd John Morris Jones

(i) Adroddwyd gan y Cadeirydd ei fod wedi cysylltu'n ddiweddar gyda'r Cyfarwyddwr Ystadau ynglŷn â chyflwr Neuadd John Morris Jones ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Roedd yn disgwyl am ei ymateb.

(ii) Nodwyd fod Ms Cheryl Wright wedi'i phenodi fel Dirprwy Gyfarwyddwr Ystadau ac y bydd yn gyfrifol am y neuaddau a defnydd adeiladau ynghyd â Chroeso/Welcome Bangor.

2. Eitem 3.3 - Datblygiadau yn y Colegau

Adroddwyd fod y Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad yn parhau gyda'r broses o benodi Pennaeth a byddent wedyn mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg.

3. Eitem 4 (iii) - Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau

Adroddwyd fod Ysgoloriaethau wedi'u dyfarnu i'r Ysgol Gerddoriaeth, Yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas a'r Ysgol Gemeg ac un o'r llynedd i Ysgol y Gyfraith. Yn ogystal ail-ofynnwyd am un Ysgoloriaeth yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd a bu yn llwyddiannus. Cafwyd llwyddiant hefyd i gael Cymrodoriaethau yn y Sefydliad Diwydiannau Creadigol, yr Ysgol Gerddoriaeth a'r Ysgol Gwyddorau Biolegol. Mae Cymrodoriaeth Dr. Prysor Williams yn yr Ysgol Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol wedi'i ymestyn am flwyddyn.

4. Eitem 5 - 'Y Ford Gron', Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Adroddwyd nad oedd y Ford Gron yn rhan o'r Ysgol Astudiaethau Trwy'r Gymraeg yn Aberystwyth ond yn hytrach yn gyfarfodydd datblygu staff yn cynnal sesiynau ar wahanol faterion fel ymchwil, recriwtio a.y.b. ***Cytunwyd*** cynnwys eitemau penodol fel ymchwil, recriwtio ar rhaglen cyfarfodydd yr Ysgol a gofyn i'r staff perthnasol roi cyflwyniadau byr (Gweithredu DDM/ER).

4. ADRODDIAD TASIG

Adroddwyd gan Meri Huws ar rai eitemau a drafodwyd yn TASIG yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2007.

(i) Mae Pwyllgor Addysg Uwch Cymru (HEW) wedi sefydlu grŵp yn cynnwys Dirprwy Is-gangellorion a Chofrestryddion i roi arweiniad strategol ar ddatblygiadau addysg cyfrwng Cymraeg.

(ii) Gofynnir i staff ddatgan yn fuan iawn i Elinor Elis-Williams, Swyddog y Wasg os oedd ganddynt unrhyw syniadau am ddeunyddiau a digwyddiadau i'w cynnwys ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

(iii) Mae 'Gwerddon' wedi ei gyhoeddi ar y We yn ddiweddar a bydd lawnsiad swyddogol yn Aberystwyth wythnos nesaf.

(iv) Llongyfarchwyd yr Athro Thomas Watkin ar ei benodiad i swydd newydd Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru a diolchwyd iddo am ei waith yn y Brifysgol.

Cytunwyd - gofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu at Yr Athro Watkin i ddiolch iddo a dymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd (Gweithredu - DDM).

(v) Gofynnwyd i'r Ysgolion ddarparu eu targedau tymor byr a chanolig ar gyfer y Cynllun Iaith Academaidd.

(vi) Cafwyd cyflwyniad yng nghyfarfod TASIG gan Mr. Ioan Evans, Swyddog Marchnata a Dilyniant y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg ar Ymgyrch Mantais sef strategaeth farchnata darpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i anelu at brif gynulleidfa 16-21 oed.

(vii) Mae Canolfan Bedwyr wedi llwyddo i sicrhau estyniad o 2 flynedd i'r Cynllun Sabothol.

(viii) Mae angen creu rhyw fath o becyn i adrodd am storiau cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol.
Cytunwyd gofyn i Mr. Alan Wyn Parry a Ms Elinor Elis-Williams edrych i mewn i'r syniad. (Gweithredu MH).

5. CYFLWYNIAD GAN DR. IOAN MATTHEWS - CANOLFAN DATBLYGU ADDYSG UWCH CYFRWNG CYMRAEG

1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr. Ioan Matthews ar ddigwyddiadau diweddar o'r lefel genedlaethol ar ddatblygiadau mewn Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

2. Sefydlwyd yn Nhachwedd 2006 Grŵp Sector Cenedlaethol o dan nawdd Addysg Uwch Cymru (HEW) gyda chynrychiolaeth o bob sefydliad addysg uwch. Bydd y Grŵp yn gyfrifol am ddatblygu a monitro strategaeth Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg.

3. Cafwyd eglurhad manwl am y Strwythur Strategol, y Camau Cyntaf, Cynllunio Darpariaeth, Marchnata, Datblygu Staff a Swyddogaeth y Ganolfan.

4. Cafodd yr aelodau gyfle wedyn i ofyn unrhyw gwestiynau. Nodwyd nad oedd teitl na lleoliad y Grŵp wedi'i benderfynu hyd yma. Bydd hefyd rhaid i benderfyniad am statws y corff fynd trwy'r penaethiaid sefydliadau.

5. Gobeithir cylchredeg gwybodaeth i lawr i'r swyddogion perthnasol yn y Colegau yn y flwyddyn academaidd newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dr. Ioan Matthews am ei gyflwyniad.

6. TERMIADUR Y GYFRAITH

Adroddwyd gan Mrs. Delyth Prys y gobeithir lawnsio geiriadur termau'r Gyfraith yn y Gymraeg i gyd-fynd gyda graddio cohort cyntaf myfyrwyr Ysgol y Gyfraith.

7. DIOLCH

Adroddwyd gan y Cadeirydd:

(i) fod cyfnod Mr. Gerallt Wyn Roberts fel Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor yn dirwyn i ben a diolchodd iddo am ei gyfraniad tuag at waith yr Ysgol a dymunodd yn dda iddo at y dyfodol.

(ii) bydd Dr. Cen Williams yn ymddeol yn yr haf fel Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr ac felly yn mynychu ei gyfarfod olaf o'r Ysgol. Diolchodd iddo am ei gyfraniad enfawr dros y blynyddoedd nid yn unig at waith yr Ysgol ond yng Nghanolfan Bedwyr a'r Brifysgol a dymunodd yn dda iddo at y dyfodol.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 2.15 o'r gloch, dydd Iau 18 Hydref 2007 yn Siambr y Cyngor.